**CYFANSODDIAD CYMDEITHAS ELUSENNOL YNYS MÔN**

(SY'N CAEL EI HADNABOD HEFYD FEL "**THE ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE ASSOCIATION")**

Dyddiad y cyfansoddiad:

1. **ENW**

Enw'r Sefydliad Corfforedig Elusennol ("yr SCE") yw Cymdeithas Elusennol Ynys Môn (sy'n cael ei hadnabod hefyd fel "The Isle of Anglesey Charitable Association").

**2. LLEOLIAD Y PRIF SWYDDFA**

Rhaid i'r SCE fod â phrif swyddfa yn Lloegr neu Gymru. Prif swyddfa'r SCE yw Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Sir, Llangefni LL77 7TW

**3. AMCANION**

3.1 Amcanion yr SCE yw:

Gwarchod buddion cyffredinol pobl sy'n byw yn y Sir mewn modd elusennol ac yn benodol, ond nid i'r graddau y bydd hynny'n cyfyngu ar natur gyffredinol yr amcan uchod:-

3.1.1 darparu mwynderau a chyfleusterau er budd cyhoeddus cyffredinol pobl sy'n byw yn y Sir a, heb gyfyngu ar natur gyffredinol yr amcan uchod, gall mwynderau a chyfleusterau o'r fath gynnwys:-

a. neuaddau cyhoeddus a phentref a chanolfannau cymunedol a chyfleusterau cymunedol cyhoeddus eraill, gan gynnwys canolfannau a chyfleusterau ar gyfer pobl sy'n byw yn y Sir sydd mewn grwpiau oedran penodol neu sy'n ddi-waith, yn sâl neu anabl;

b. cyfleusterau i hyfforddi pobl sy'n byw yn y Sir ar gyfer gwaith, crefftau a phroffesiynau crefftus a lled-grefftus;

c. cyfleusterau i gynorthwyo pobl sâl sy'n byw yn y Sir;

d. cymdeithasau a sefydliadau gwirfoddol sy'n darparu cyfleusterau chwaraeon, adloniant neu amser hamdden sydd ar gael yn gyffredinol i bobl sy'n byw yn y Sir;

e. ysgolion, grwpiau meithrin, eglwysi a chapeli sy'n gwasanaethu pobl sy'n byw yn y Sir; a

f. gwyliau celfyddydol, canolfannau celfyddydau, orielau celf, amgueddfeydd, theatrau a llyfrgelloedd sydd wedi eu lleoli yn y Sir.

3.1.2 diogelu er budd cyhoeddus cyffredinol y bobl sy'n byw yn y Sir adeiladu o ddiddordeb neu bwysigrwydd esthetig, hanesyddol, pensaernïol, adeiladol neu wyddonol ;

3.1.3 sicrhau cadwraeth a gwarchod tir neu unrhyw eiddo arall yn y Sir sydd o werth esthetig, hanesyddol neu wyddonol;

3.1.4 diogelu a gwarchod yr amgylchedd a'r cefn gwlad a rheoli a lleihau llygredd yn y Sir;

3.1.5 noddi cyhoeddiadau a phrosiectau ymchwil y mae eu cynnwys neu eu canlyniadau (os yn briodol) yn debygol o fod o fudd addysgol i aelodau'r cyhoedd sy'n byw yn y Sir.

## 4. PWERAU

Mae gan yr SCE y pŵer i wneud unrhyw beth a fydd, fe dybir, yn hyrwyddo ei amcanion neu sy'n gydnaws â neu'n gysylltiedig â hynny. Yn benodol, mae pwerau'r SCE yn cynnwys pŵer i:-

4.1 fenthyca arian ac i godi'r cyfan neu unrhyw ran o'i eiddo fel ernes ar gyfer ad-dalu'r arian a fenthyciwyd. Rhaid i'r SCE gydymffurfio fel sy'n briodol gydag adrannau 124 a 125 Deddf Elusennau 2011 os yw'n dymuno codi morgais ar dir;

4.2 prynu, cymryd ar brydles neu gyfnewid, llogi neu gaffael mewn unrhyw fodd arall unrhyw eiddo a'i gynnal a'i gadw a'i gyfarparu ar gyfer ei ddefnyddio;

4.3 gwerthu, prydlesu neu gael gwared mewn unrhyw fodd arall o'r cyfan neu ran o'r eiddo sy'n berchen i'r SCE. Wrth weithredu'r pŵer hwn, rhaid i'r SCE gydymffurfio fel sy'n briodol gydag adrannau 117 a 119-123 Deddf Elusennau 2011;

4.4 cyflogi a thalu i unrhyw staff sy'n angenrheidiol i gyflawni gwaith yr SCE. Ni all yr SCE ond cyflogi neu dalu i ymddiriedolwr yr elusen i'r graddau y caniateir hynny dan gymal 6 (Buddion a thaliadau i ymddiriedolwyr yr elusen a phersonau cysylltiedig) ac ar yr amod ei fod yn cydymffurfio gydag amodau'r cymalau hynny;

4.5 adneuo neu fuddsoddi arain, cyflogi rheolwr ariannol proffesiynol a threfnu i fuddsoddiadau neu eiddo arall yr SCE gael eu dal yn enw enwebai, yn yr un modd a chyda'r un amodau ag y caniateir i ymddiriedolwyr ymddiriedolaethau wneud hynny dan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000.

## 5. DEFNYDD O INCWM AC EIDDO

5.1 Rhaid i incwm ac eiddo'r SCE gael eu defnyddio i bwrpas hyrwyddo'r amcanion yn unig.

5.1.1 Mae gan ymddiriedolwr elusen yr hawl i gael ei ad-dalu o eiddo'r SCE neu gellir talu allan o eiddo o'r fath ei dreuliau rhesymol ef neu hi wrth weithredu ar ran yr SCE.

5.1.2 Gall ymddiriedolwr elusen elwa o yswiriant indemniad ymddiriedolwyr a brynwyd gan yr SCE yn unol â, ac yn ddarostyngedig i'r amodau sydd yn adran 189 Deddf Elusennau 2011.

5.2 Ni fedr incwm neu eiddo'r SCE gael eu talu neu eu trosglwyddo'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy ddifidend, bonws neu elw i unrhyw aelod o'r SCE. Nid yw hyn yn atal aelod nad yw'n ymddiriedolwr yr elusen rhag derbyn:-

5.2.1 budd o'r SCE fel un o fuddiolwyr yr SCE;

5.2.2 Cydnabyddiaeth resymol a phriodol am unrhyw nwyddau neu wasanaethau a gyflenwir i'r SCE.

5.3 Ni fydd unrhyw beth yn y cymal hwn yn atal ymddiriedolwr elusen neu berson cysylltiedig rhag derbyn unrhyw fudd neu daliad a awdurdodir gan Gymal 6.

## 6. BUDDION A THALIADAU I YMDDIRIEDOLWYR ELUSEN A PHOBL GYSYLLTIEDIG

### 6.1 Darpariaethau cyffredinol

Ni chaiff unrhyw ymddiriedolwr elusen neu berson cysylltiedig:

6.1.1 brynu neu dderbyn unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan yr SCE ar delerau sy'n fwy ffafriol na'r telerau sydd yn berthnasol i aelodau'r cyhoedd;

6.1.2 gwerthu nwyddau, gwasanaethau neu unrhyw fudd mewn tir i'r SCE;

6.1.3 gael eu cyflogi gan, neu dderbyn unrhyw gydnabyddiaeth ariannol gan yr SCE;

6.1.4 derbyn unrhyw fudd ariannol arall gan yr SCE;

oni bai fod y taliad neu'r budd wedi ei ganiatáu dan is-gymal 6.2 neu wedi ei awdurdodi gan y llys neu wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Comisiwn Elusennau ("y Comisiwn"). Yn y cymal hwn, mae "budd ariannol" yn golygu budd, uniongyrchol neu anuniongyrchol, sydd naill ai'n arian neu sydd â gwerth ariannol.

### 6.2 Sgôp a phwerau sy'n caniatáu buddion i ymddiriedolwyr yr elusen neu bobl gysylltiedig

6.2.1 Gall ymddiriedolwr yr elusen neu berson cysylltiedig dderbyn budd gan yr SCE fel buddiolwr yr SCE ar yr amod nad yw'r rhan fwyaf o ymddiriedolwyr yr elusen yn elwa yn yr un modd.

6.2.2 Gall ymddiriedolwr elusen neu berson cysylltiedig ymrwymo i gontract gyda'r SCE ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, neu nwyddau a gyflenwir mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau ble caniateir hynny'n unol â, a chyda'r amodau sydd wedi eu cynnwys yn adrannau 185 i 188 Deddf Elusennau 2011.

6.2.3 Yn amodol ar is-gymal 6.3, gall ymddiriedolwr elusen neu berson cysylltiedig ddarparu nwyddau i'r SCE nad ydynt yn cael eu cyflenwi mewn cysylltiad â'r gwasanaethau a ddarperir i'r SCE gan ymddiriedolwr yr elusen neu berson cysylltiedig.

6.2.4 Gall ymddiriedolwr elusen neu berson cysylltiedig dderbyn llog ar arian a fenthyciwyd i'r SCE ar gyfradd resymol a phriodol na ddylai fod yn uwch na chyfradd banc Lloegr (a elwir hefyd yn gyfradd sylfaenol).

6.2.5 Gall ymddiriedolwr elusen neu berson cysylltiedig dderbyn rhent am eiddo a osodir gan yr ymddiriedolwr elusen neu berson sy'n gysylltiedig â'r SCE. Rhaid i swm y rhent a thelerau eraill y brydles fod yn rhesymol ac yn briodol. Rhaid i'r ymddiriedolwr dan sylw adael unrhyw gyfarfod ble mae cynnig o'r fath neu'r rhent neu delerau eraill y brydles yn cael eu trafod.

6.2.6 Gall ymddiriedolwr elusen neu berson cysylltiedig gymryd rhan yng ngweithgareddau masnachu a chodi arian arferol yr SCE ar yr un telerau ag aelodau'r cyhoedd.

**6.3 Taliad am gyflenwi nwyddau yn unig – dulliau rheoli**

Dim ond os yw pob un o'r amodau canlynol wedi'i bodloni gall yr SCE a'i ymddiriedolwyr elusennol ddibynnu ar yr awdurdod a ddarperir dan is-gymal 6.2.3:

6.3.1 Bod swm neu uchafswm y taliad ar gyfer y nwyddau wedi ei bennu mewn cytundeb ysgrifenedig rhwng yr SCE ac ymddiriedolwr yr elusen neu berson cysylltiedig sy'n cyflenwi'r nwyddau ("y cyflenwr").

6.3.2 Nid yw swm neu uchafswm y taliad ar gyfer y nwyddau'n yn uwch na'r swm sy'n rhesymol dan yr amgylchiadau ar gyfer cyflenwi'r nwyddau dan sylw.

6.3.3 Bod ymddiriedolwyr eraill yr elusen yn fodlon ei fod er budd gorau'r SCE i sefydlu contract gyda'r cyflenwr yn hytrach na rhywun nad yw'n ymddiriedolwr yr elusen neu'n berson cysylltiedig. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen bwyso a mesur y fantais o sefydlu contract gydag ymddiriedolwr elusen neu berson cysylltiedig yn erbyn anfanteision gwneud hynny.

6.3.4 Bod y cyflenwr yn absennol o unrhyw rhan o'r cyfarfod ble mae trafodaeth ynglŷn â'r cynnig i sefydlu contract neu drefniant gydag ef neu hi neu'r corff perthnasol mewn perthynas â chyflenwi nwyddau i'r SCE.

6.3.5 Bod y cyflenwr ddim yn pleidleisio ar unrhyw fater o'r fath ac nad yw'n cael ei gyfrif pan yn gweithio allan a oes cworwm o ymddiriedolwyr yr elusen yn bresennol yn y cyfarfod.

6.3.6 Bod y rheswm am eu penderfyniad yn cael ei gofnodi gan ymddiriedolwyr yr elusen yn y llyfr cofnodion.

6.3.7 Nad yw mwyafrif yr ymddiriedolwyr elusennol sydd mewn swydd ar y pryd yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol neu daliadau a awdurdodir dan gymal clause 6.

**6.4 Dehongliad**

Yn is-gymalau 6.2 a 6.3:

6.4.1 Maer "SCE" yn cynnwys unrhyw gwmni y mae'r SCE:

a. yn dal mwy na 50% o'i gyfranddaliadau; neu

b. yn rheoli mwy na 50% o'r hawliau pleidleisio sydd ynghlwm wrth y cyfranddaliadau; neu

c. â'r hawl i benodi un neu ragor o gyfarwyddwyr i wasanaethu ar fwrdd y cwmni;

6.4.2 mae "person cysylltiedig" yn cynnwys unrhyw berson sydd wedi'i gynnwys o fewn y diffiniad a nodir yng nghymal 30 (Dehongliad);

## 7. GWRTHDRAWIADAU DIDDORDEB A GWRTHDRAWIADAU TEYRNGARWCH

7.1 Rhaid i ymddiriedolwr elusen:

7.1.1 ddatgan natur a graddfa unrhyw ddiddordeb, uniongyrchol neu anuniongyrchol, y mae ef neu hi wedi neu'n bwriadu sefydlu trafodiad neu drefniant yn ei gylch gyda'r SCE neu mewn unrhyw drafodiad neu drefniant a sefydlwyd gan yr SCE nad yw wedi ei ddatgan yn flaenorol; a

7.1.2 pheidio â bod yn bresennol mewn unrhyw drafodaethau gydag ymddiriedolwyr yr elusen ble mae'n bosibl y bydd gwrthdrawiad diddordeb yn codi rhwng ei ddyletswydd/ei dyletswydd i weithredu'n gyfan gwbl er budd y SCE ac unrhyw ddiddordeb personol (gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, unrhyw diddordeb ariannol).

7.2 Ni ddylai unrhyw ymddiriedolwr elusennol sy'n absenoli ei hun o unrhyw drafodaethau'n unol â'r cymal hwn, bleidleisio nac ychwaith gael ei gyfrif fel rhan o'r cworwm mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad y bydd ymddiriedolwyr yr elusen yn ei wneud ar y mater.

## 8. RHWYMEDIGAETH AELODAU I GYFRANNU AT YR ASEDAU OS YW'R SCE YN CAEL EI DDIRWYN I BEN

Os yw'r SCE yn cael ei ddirwyn i ben, nid oes unrhyw rwymedigaeth ar aelodau'r SCE i gyfrannu at ei asedau ac ni fydd unrhyw gyfrifoldeb personol arnynt i setlo ei ddyledion a'i rwymedigaethau.

## 9. AELODAETH O'R SCE

**9.1 Derbyn aelodau newydd**

**9.1.1 Cymhwyster**

a. Mae aelodaeth yr SCE yn agored i unrhyw un sydd â diddordeb mewn hyrwyddo ei bwrpas ac sydd, drwy ymgeisio i fod yn aelod, wedi rhoi arwydd ei fod ef, hi neu gorff perthnasol yn cytuno i fod yn aelod a derbyn dyletswydd aelod/aelodau fel y'i nodir yn is-gymal 9.3.

b. gall aelod fod yn unigolyn, yn gorff corfforedig neu'n sefydliad nad yw'n gorfforedig.

**9.1.2 Y drefn ar gyfer derbyn aelodau newydd**

Gall ymddiriedolwyr yr elusen:-

a. Fynnu bod ceisiadau am aelodaeth yn cael eu cyflwyno mewn unrhyw fodd rhesymol y byddant yn penderfynu arno;

b. os byddant yn cymeradwyo cais am aelodaeth, byddant yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am eu penderfyniad ymhen 21 diwrnod;

c. gallant wrthod cais am aelodaeth os ydynt o'r farn fod hynny er budd gorau'r SCE;

d. os byddant yn penderfynu gwrthod cais am aelodaeth, byddant yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd o fewn 21 diwrnod o wneud y penderfyniad gan nodi'r rhesymau am y penderfyniad ac yn rhoddi i'r ymgeisydd y cyfle i apelio yn erbyn eu penderfyniad i wrthod aelodaeth; ac

e. yn rhoi ystyriaeth deg i unrhyw apêl o'r fath ac yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am eu penderfyniad ond bydd unrhyw benderfyniad i gadarnhau bod y cais wedi'i wrthod yn derfynol.

**9.2 Trosglwyddo aelodaeth**

Ni ellir trosglwyddo aelodaeth o'r SCE i unrhyw un arall.

**9.3 Dyletswydd aelodau**

Mae'n ddyletswydd ar bob aelod o'r SCE i ymarfer ei bwerau ef neu hi fel aelod o'r SCE mewn modd y mae ef neu hi'n penderfynu ddiffuant fyddai fwyaf tebygol o hyrwyddo dibenion yr SCE.

**9.4 Dwyn aelodaeth i ben**

9.4.1 Daw aelodaeth o'r SCE i ben:

a. os bydd yr aelod yn marw, neu, yn achos sefydliad, bod y sefydliad yn rhoi'r gorau i fodoli;

b. os bydd yr aelod yn anfon rhybudd o ymddiswyddiad i ymddiriedolwyr yr elusen;

c. os nad yw unrhyw swm o arian sydd yn ddyledus gan yr aelod i'r SCE yn cael ei dalu'n llawn o fewn chwe mis o'r dyddiad y mae'n ddyledus; neu

d. os bydd ymddiriedolwyr yr elusen yn penderfynu ei fod er budd gorau'r SCE i aelodaeth yr aelod dan sylw gael ei ddirwyn i ben, a chymeradwyo cynnig i'r perwyl hwnnw.

9.4.2 Cyn i ymddiriedolwyr yr elusen wneud unrhyw benderfyniad i dynnu rhywun oddi ar aelodaeth yr SCE, rhaid iddynt:-

a. hysbysu'r aelod o'r rhesymau pam fod bwriad i'w dynnu ef/ei thynnu hi/ei thynnu nhw oddi ar ei aelodaeth;

b. rhoi i'r aelod o leiaf 21 diwrnod clir o rybudd fel y gall ef, hi neu nhw gyflwyno sylwadau i ymddiriedolwyr yr elusen yn nodi pam na ddylai ef, hi neu gorff perthnasol gael eu tynnu oddi ar ei aelodaeth;

c. mewn cyfarfod cyfansoddiadol o'r ymddiriedolwyr elusennol, ystyried a ddylid tynnu'r aelod oddi ar ei aelodaeth ai peidio;

d. ystyried yn y cyfarfod hwn, unrhyw sylwadau a wneir gan yr aelod yn dweud pam na ddylai gael ei dynnu oddi ar ei aelodaeth; a

e. chaniatáu i'r aelod, neu gynrychiolydd yr aelod, wneud y sylwadau hynny'n bersonol yn y cyfarfod os yw'r aelod yn dewis wneud hynny.

**9.5 Ffioedd Aelodaeth**

Gall yr SCE fynnu bod aelodau'n talu ffi aelodaeth resymol i'r SCE.

**10. Penderfyniadau Aelodau**

**10.1 Darpariaethau Cyffredinol**

Ac eithrio'r penderfyniadau hynny y mae'n rhaid eu gwneud mewn modd penodol fel y nodir yn is-gymal 10.4, gall penderfyniadau aelodau'r SCE naill ai gael eu cymryd drwy bleidlais mewn cyfarfod cyffredinol yn unol ag is-gymal 10.2 neu drwy gynnig ysgrifenedig fel y darperir ar gyfer hynny yn is-gymal 10.3.

**10.2 Gwneud penderfyniadau arferol drwy bleidlais**

Yn amodol ar is-gymal 10.4, gall unrhyw benderfyniadau gan aelodau'r SCE gael eu gwneud drwy gyfrwng penderfyniad mewn cyfarfod cyffredinol. Gall penderfyniad o'r fath gael ei basio drwy fwyafrif syml o bleidleisiau sy'n cael eu bwrw mewn cyfarfod (gan gynnwys pleidleisiau sy'n cael eu bwrw drwy bleidlais bost a phleidleisiau trwy ddirprwy).

**10.3 Gwneud penderfyniadau arferol drwy benderfyniad ysgrifenedig heb gyfarfod cyffredinol**

10.3.1 Yn amodol ar is-gymal 10.4, bydd penderfyniad ar bapur y cytunwyd arno gan fwyafrif syml o'r holl aelodau a fyddai wedi bod â hawl i bleideisio arno petai wedi cael ei gynnig mewn cyfarfod cyffredinol yn ddilys, ar yr amod:-

a. bod copi o'r penderfyniad arfaethedig wedi cael ei anfon at yr holl aelodau sydd â hawl i bleidleisio; a

b. bod mwyafrif syml o'r aelodau wedi mynegi eu bod yn cytuno â'r penderfyniad mewn dogfen neu ddogfennau a dderbyniwyd yn y brif swyddfa o fewn cyfnod o 28 diwrnod yn cychwyn ar y dyddiad cylchredeg. Rhaid i'r ddogfen sy'n mynegi cytundeb yr aelod gael ei dilysu gyda'u llofnod (neu yn achos sefydliad sy'n aelod, drwy weithredu'n unol â'i weithdrefnau arferol), drwy gynnwys datganiad o'u hunaniaeth gyda'r ddogfen, neu mewn unrhyw fodd arall a bennwyd gan yr SCE.

10.3.2 Efallai y bydd y penderfyniadau ysgrifenedig yn cynnwys nifer o gopïau y mae un neu ragor o aelodau wedi mynegi eu bod yn cytuno â nhw.

10.3.3 Mae hawl i bleidleisio ar benderfyniad wedi'i gyfyngu i aelodau sy'n aelodau o'r SCE ar y dyddiad y cylchredwyd y cynnig am y tro cyntaf a hynny'n unol â pharagraff (a) uchod.

10.3.4 Gall dim llai na 10% o aelodau'r SCE ofyn i ymddiriedolwyr yr elusen wneud cynnig ar gyfer penderfynu arno gan yr aelodau.

10.3.5 Rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen, o fewn 21 diwrnod o dderbyn cais o'r fath, gydymffurfio ag o os:-

a. yw'r cais yn un nad yw'n wamal nac yn flinderus ac sydd ddim yn cynnwys cyhoeddi deunydd difenwol;

b. yw'r cynnig wedi'i ddatgan yn ddigon clir i'w alluogi i gael ei weithredu os yw'r aelodau'n cytuno iddo; ac

c. os gellir gweithredu'r cynnig yn gyfreithiol pe cytunir arno.

10.3.6 Mae is-gymalau 10.3.1 i 10.3.3 y cymal hwn yn berthnasol i gynnig a wnaed ar gais yr aelodau.

**10.4 Penderfyniadau y mae'n rhaid eu cymryd mewn modd penodol**

10.4.1 Rhaid gwneud unrhyw benderfyniad i ddiswyddo ymddiriedolwr elusen yn unol â chymal 15.2.

10.4.2 Rhaid i unrhyw benderfyniad i ddiwygio'r cyfansoddiad hwn gael ei wneud yn unol â chymal 28 y cyfansoddiad hwn (Diwygio'r Cyfansoddiad).

10.4.3 Rhaid i unrhyw benderfyniad i derfynu neu ddiddymu'r SCE gael ei wneud yn unol â chymal 29 y cyfansoddiad hwn (Terfynu neu ddiddymu gwirfoddol). Rhaid i unrhyw benderfyniad i gyfuno neu drosglwyddo ymgymeriad yr SCE i un neu fwy o SCE eraill gael ei wneud yn unol â darpariaethau Deddf Elusennau 2011.

## 11. Cyfarfodydd cyffredinol yr aelodau

### 11.1 Mathau o gyfarfod arbennig

11.1.1 Rhaid cynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol (CCB) o aelodau'r SCE. Rhaid cynnal y CCB cyntaf o fewn 18 mis o gofrestru'r SCE a rhaid cynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol dilynol bob 15 mis o leiaf. Rhaid i'r CCB dderbyn y datganiad cyfrifon blynyddol (wedi eu harchwilio lle mae hynny'n briodol) ac adroddiad blynyddol ymddiriedolwyr yr elusen a rhaid iddo ethol ymddiriedolwyr elusen fel sy'n ofynnol dan gymal 13.

11.1.2 Gellir cynnal cyfarfodydd cyffredinol eraill o aelodau'r SCE ar unrhyw adeg.

11.1.3 Rhaid cynnal yr holl gyfarfodydd cyffredinol yn unol â'r darpariaethau isod.

### 11.2 Galw cyfarfodydd cyffredinol

11.2.1 Rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen:

a. alw cyfarfod cyffredinol blynyddol o aelodau'r SCE yn unol ag is-gymal 11.1, a nodi mai dyna ydyw yn y rhybudd ar gyfer y cyfarfod; a

b. gallant alw unrhyw gyfarfodydd cyffredinol eraill o'r aelodau ar unrhyw adeg.

11.2.2 Rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen, o fewn 21 diwrnod, alw cyfarfod cyffredinol o aelodau'r SCE os:-

a. Ydynt yn derbyn cais i wneud hynny gan o leiaf 10% o aelodau'r SCE; a

b. bod y cais yn nodi natur gyffredinol y busnes a fydd yn cael sylw yn y cyfarfod ac yn cael ei ddilysgu gan yr aelod(au) sy'n cyflwyno'r cais.

11.2.3 Os, ar adeg gwneud unrhyw gais o'r fath, nad yw cyfarfod cyffredinol o aelodau'r SCE wedi cael ei gynnal am fwy na 12 mis, yna daw is-gymal 11.2.2(a) i rym a bydd 5% yn cael ei ddisodli am 10%.

11.2.4 Gall unrhyw gais o'r fath gynnwys manylion am argymhelliad y gellir yn briodol ei gynnig ac y bwriedir ei gynnig, yn y cyfarfod.

11.2.5 Ni fedrir ond argymell cynnig yn briodol os yw'n gyfreithlon a ddim yn ddifenwol, yn wamal neu'n flinderus.

11.2.6 Mae'n rhaid i unrhyw gyfarfod cyffredinol sy'n cael ei alw gan ymddiriedolwyr yr elusen ar gais aelodau'r SCE gael ei gynnal o fewn 28 niwrnod o'r dyddiad y mae'n cael ei alw.

11.2.7 Os nad yw ymddiriedolwyr yr elusen yn cydymffurfio â'r rhwymedigaeth hon i alw cyfarfod cyffredinol ar gais ei aelodau, yna gall yr aelodau a ofynnodd am y cyfarfod alw cyfarfod cyffredinol eu hunain.

11.2.8 Mae'n rhaid i gyfarfod cyffredinol sy'n cael ei alw felly gael ei gynnal ddim mwy na 3 mis ar ôl y dyddiad pan wnaeth yr aelodau gais am y cyfarfod yn gyntaf.

11.2.9 Mae'n rhaid i'r SCE ad-dalu unrhyw gostau rhesymol a gafwyd gan yr aelodau sy'n galw cyfarfod cyffredinol o ganlyniad i fethiant gan ymddiriedolwyr yr elusen i alw'r cyfarfod yn briodol, ond bydd hawl gan yr SCE i gael ei indemnio gan ymddiriedolwyr yr elusen a oedd yn gyfrifol am fethiant o'r fath.

**11.3 Rhybydd o gyfarfodydd cyffredinol**

11.3.1 Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen neu, yn unol â'r amgylchiadau, aelodau perthnasol o'r SCE, roi o leiaf 14 niwrnod clir o rybudd o unrhyw gyfarfod cyffredinol i bob aelod, ac i unrhyw ymddiriedolwr elusen o'r SCE nad yw'n aelod.

11.3.2 Os cytunir gan ddim llai na 90% o holl aelodau'r SCE, gall unrhyw gynnig gael ei gyflwyno a'i basio yn y cyfarfod er nad yw gofynion is-gymal 11.3.1 wedi cael eu cyflawni. Nid yw'r is-gymal hwn yn berthnasol os oes cymal arall yn y cyfansoddiad hwn, Deddf Elusennau 2011 neu'r Rheoliadau Cyffredinol, yn gofyn yn benodol am gyfnod o rybudd.

11.3.3 Mae'n rhaid i'r rhybudd o unrhyw gyfarfod cyffredinol:

a. nodi amser a dyddiad y cyfarfod;

b. nodi'r cyfeiriad lle y bwriedir cynnal y cyfarfod;

c. rhoi manylion unrhyw gynnig sydd i'w roi gerbron y cyfarfod, a natur gyffredinol unrhyw fusnes arall i gael ei drafod yn y cyfarfod; a

d. os bydd cynnig i newid cyfansoddiad yr SCE yn cael ei ystyried yn y cyfarfod, cynnwys geiriad y newid arfaethedig;

e. cynnwys, gyda'r rhybudd ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, y datganiad cyfrifon blynyddol ac adroddiad blynyddol ymddiriedolwyr yr elusen, manylion yr unigolion sy'n sefyll i gael eu hethol neu eu hail-ethol fel ymddiriedolwyr neu, os yw cymal 22 (Defnyddio cyfathrebu electronig) yn caniatáu hynny, manylion sy'n dangos ble y gellir cael hyd i'r wybodaeth ar wefan yr SCE.

11.3.4 Bydd prawf bod amlen yn cynnwys rhybudd wedi ei chyfeirio'n gywir, gyda'r post wedi'i dalu ymlaen llaw a'i hanfon; neu fod ffurf electronig o rybudd wedi ei gyfeirio'n gywir a'i anfon, yn dystiolaeth derfynol bod rhybudd wedi cael ei roi. Ystyrir bod rhybudd wedi cael ei roi 48 awr ar ôl iddo gael ei bostio neu ei anfon.

11.3.5 Ni fydd trafodion y cyfarfod yn cael eu hannilysu oherwydd nad oedd aelod a oedd â hawl i gael rhybudd o'r cyfarfod wedi derbyn rhybudd am fod yr SCE wedi'i adael allan yn ddamweiniol.

### 11.4 Cadeirio cyfarfodydd cyffredinol

Bydd y sawl a enwebir fel cadeirydd gan ymddiriedolwyr yr elusen o dan gymal 19.2 (Cadeirio cyfarfodydd), os yw'n bresennol yn y cyfarfod cyffredinol ac yn barod i weithredu, yn llywyddu fel cadeirydd y cyfarfod. Yn amodol ar hynny, bydd aelodau'r SCE sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol yn ethol cadeirydd i lywyddu yn y cyfarfod.

### 11.5 Cworwm mewn cyfarfodydd cyffredinol

11.5.1 Ni all unrhyw fusnes gael ei drafod mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol o aelodau'r SCE oni bai bod cworwm yn bresennol ar gychwyn y cyfarfod.

11.5.2 Yn amodol ar y darpariaethau a ganlyn, y cworwm ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol fydd y mwyaf o 5% neu dri aelod. Mae sefydliad sydd wedi cael ei gynrychioli gan unigolyn sy'n bresennol yn y cyfarfod yn unol ag is-gymal 11.7 y cymal hwn, yn cael ei gyfrif fel un sy'n bresennol mewn person.

11.5.3 Os yw'r cyfarfod wedi cael ei alw gan neu ar gais aelodau ac os nad oes cworwm yn bresennol o fewn 15 munud o'r amser cychwyn a nodwyd yn rhybudd y cyfarfod, bydd y cyfarfod yn dod i ben.

11.5.4 Os yw'r cyfarfod wedi cael ei alw mewn unrhyw ffordd arall ac os nad oes cworwm yn bresennol o fewn 15 munud o'r amser cychwyn a nodwyd yn rhybudd y cyfarfod, mae'n rhaid i'r cadeirydd ohirio'r cyfarfod. Mae'n rhaid i'r cadeirydd gyhoeddi dyddiad, amser a lleoliad ar gyfer ailgychwyn y cyfarfod neu hysbysu aelodau'r SCE o leiaf 7 niwrnod clir cyn dyddiad ailgychwyn y cyfarfod.

11.5.5 Os nad oes cworwm yn bresennol o fewn 15 munud o amser cychwyn y cyfarfod a ohiriwyd, bydd yr aelod neu'r aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod yn cael ei ystyried yn gworwm.

11.5.6 Os ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod y bydd cworwm yn peidio â bod yn bresennol, gall y cyfarfod drafod materion a gwneud argymhellion i ymddiriedolwyr yr elusen ond ni all wneud unrhyw benderfyniadau. Os oes

angen gwneud penderfyniadau y mae’n rhaid eu gwneud gan gyfarfod o’r aelodau, mae’n rhaid gohirio’r cyfarfod.

**11.6 Pleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol**

11.6.1 Mae’n rhaid gwneud unrhyw benderfyniad, heblaw am un sydd wedi’i gynnwys dan is-gymal 10.4 (Penderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud mewn ffordd arbennig) drwy fwyafrif syml o’r pleidleisiau sy’n cael eu bwrw yn y cyfarfod (gan gynnwys pleidleisiau drwy ddirprwy a phleidleisiau trwy’r post). Mae gan bob aelod un bleidlais.

11.6.2 Bydd cynnig i’w bleidleisio arno yn y cyfarfod yn cael ei benderfynu trwy ddangos dwylo, oni bai (cyn neu wrth gyhoeddi canlyniad y dangos dwylo) bod cais am bleidlais yn cael ei wneud yn briodol. Gall y cadeirydd neu o leiaf 10% o’r aelodau sy’n bresennol yn bersonol yn y cyfarfod, neu’n cael eu cynrychioli gan ddirprwy, fynnu bod pleidlais yn cael ei chynnal.

11.6.3 Mae’n rhaid i bleidlais sy’n cael ei galw i ethol unigolyn i gadeirio’r cyfarfod neu ar gwestiwn o ohirio’r cyfarfod, gael ei chynnal yn syth. Bydd pleidlais ar unrhyw fater arall yn cael ei chynnal, a bydd canlyniad y bleidlais yn cael ei gyhoeddi yn y dull a benderfynir gan gadeirydd y cyfarfod, ar yr amod bod rhaid cynnal y bleidlais, a bod rhaid cyhoeddi canlyniad y bleidlais, o fewn 30 niwrnod o’r cais i gynnal pleidlais bapur.

11.6.4 Gall pleidlais gael ei chymryd:-

a. yn y cyfarfod lle y cafodd ei galw; neu

b. ar ryw adeg arall ac mewn lleoliad arall a bennir gan y cadeirydd; neu

c. drwy ddefnyddio cyfathrebu drwy’r post neu gyfathrebu electronig.

11.6.5 Yn achos pleidleisiau cyfartal, boed drwy ddangos dwylo neu drwy bleidlais, bydd gan gadeirydd y cyfarfod ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

11.6.6 Rhaid i unrhyw wrthwynebiad i gymhwyster unrhyw bleidleiswyr gael ei godi yn y cyfarfod lle mae’r bleidlais yn cael ei bwrw a bydd penderfyniad cadeirydd y cyfarfod yn derfynol.

**11.7 Pleidlais drwy ddirprwy**

11.7.1 Gall unrhyw aelod o’r SCE benodi unigolyn arall fel dirprwy i arfer y cyfan neu unrhyw un o hawliau’r aelod i fynychu, siarad a phleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol o’r SCE. Mae’n rhaid i ddirprwyon gael eu penodi trwy hysbysiad ysgrifenedig (“hysbysiad drwy ddirprwy”) sydd:-

a. yn nodi enw a chyfeiriad yr aelod sy’n penodi’r dirprwy;

(b) yn adnabod y sawl a benodwyd fel dirprwy yr aelod a’r cyfarfod cyffredinol y mae’r unigolyn hwnnw yn cael ei benodi ar ei gyfer;

(c) wedi'i lofnodi gan neu ar ran yr aelod sy'n penodi'r dirprwy, neu wedi'i ddilysu mewn ffordd a bennir gan y SCE; ac

(d) yn cael ei gyflwyno i'r SCE yn unol â'r cyfansoddiad ac unrhyw gyfarwyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y rhybudd o gyfarfod cyffredinol y mae'n cyfeirio ato.

11.7.2 Gall yr SCE fynnu bod hysbysiadau o ddirprwy yn cael eu cyflwyno mewn ffurf arbennig, a gall bennu ffurfiau gwahanol at ddibenion gwahanol.

11.7.3 Gall hysbysiadau drwy ddirprwy (ond nid oes rhaid iddynt) bennu sut y mae'r dirprwy a benodwyd oddi danynt yn pleidleisio (neu fod y dirprwy yn atal ei bleidlais) ar un neu fwy o gynigion.

11.7.4 Oni bai bod hysbysiad drwy ddirprwy yn nodi fel arall, rhaid ei drin fel un sy'n:-

(a) caniatáu disgresiwn i'r person sy'n cael ei benodi'n ddirprwy oddi dano ynghylch sut i bleidleisio ar unrhyw gynnig ychwanegol neu weithdrefnol a gyflwynir i'r cyfarfod; a

(b) penodi'r unigolyn hwnnw fel dirprwy mewn perthynas â gohirio'r cyfarfod cyffredinol y mae'n cyfeirio ato o yn ogystal â'r cyfarfod ei hun.

11.7.5 Bydd aelod sydd â'r hawl i fod yn bresennol, siarad neu bleidleisio (naill ai drwy godi llaw neu bleidlais) mewn cyfarfod cyffredinol yn parhau â'r hawl ar gyfer y cyfarfod hwnnw neu unrhyw ohiriad o'r cyfarfod, er bod hysbysiad drwy ddirprwy dilys wedi cael ei gyflwyno i'r SCE gan, neu ar ran, yr aelod hwnnw.

11.7.6 Gall penodiad o dan hysbysiad drwy ddirprwy gael ei dynnu'n ôl drwy gyflwyno i'r SCE hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan neu ar ran yr aelod a roddodd yr hysbysiad drwy ddirprwy, neu y cafodd ei roi ar ei ran.

11.7.7 Daw hysbysiad sy'n tynnu'n ôl penodi dirprwy yn weithredol dim ond os yw'n cael ei gyflwyno cyn cychwyn y cyfarfod neu gyfarfod a ohiriwyd y mae'n cyfeirio ato.

11.7.8 Os nad yw hysbysiad drwy ddirprwy wedi'i lofnodi neu ei ddilysu gan yr aelod sy'n penodi'r dirprwy, mae'n rhaid darparu tystiolaeth ysgrifenedig gydag o yn datgan bod gan yr unigolyn a lofnododd neu a ddilysodd yr hysbysiad yr awdurdod i wneud hynny.

**11.8 Pleidlais trwy'r post**

11.8.1 Gall yr SCE, os yw ymddiriedolwyr yr elusen yn penderfynu felly, ganiatáu i aelodau bleidleisio trwy'r post neu bost electronig ("e-bost") i wneud penderfyniad ar unrhyw fater sy'n cael ei benderfynu mewn cyfarfod cyffredinol o'r aelodau.

11.8.2 Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen benodi o leiaf dau unigolyn sy'n annibynnol o'r SCE i wasanaethu fel archwilwyr i oruchwylio cynnal y bleidlais trwy'r post/e-bost a chyfrif pleidleisiau.

11.8.3 Os yw pleidlais trwy'r post a/neu e-bost yn cael ei chaniatáu mewn perthynas â mater, mae'n rhaid i'r SCE anfon at aelodau'r SCE o leiaf 21 niwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn pleidleisiau a fwrir yn y modd hwn:-

a. hysbysiad trwy e-bost, os yw'r aelod wedi cytuno i dderbyn hysbysiadau yn y modd hwn o dan gymal 22 (Defnyddio dulliau cyfathrebu electronig), gan gynnwys esboniad o bwrpas y bleidlais a'r drefn bleidleisio i'w dilyn gan yr aelod, a ffurflen bleidleisio sy'n gallu cael ei dychwelyd trwy e-bost neu trwy'r post i'r SCE, sy'n cynnwys manylion y cynnig i bleidleisio arno.

b. hysbysiad trwy'r post i bob aelod arall, gan gynnwys esboniad ysgrifenedig o bwrpas y bleidlais trwy'r post a'r drefn bleidleisio i'w dilyn gan yr aelod; a ffurflen pleidleisio trwy'r post sy'n cynnwys manylion y cynnig i bleidleisio arno.

11.8.4 Mae'n rhaid i'r drefn bleidleisio fynnu bod pob ffurflen yn cael ei dychwelyd trwy'r post mewn amlen gydag enw a llofnod yr aelod, a dim byd arall, ar y tu allan, y tu mewn i amlen arall wedi'i chyfeirio at "Yr Archwilwyr ar gyfer Cymdeithasol Elusennol Ynys Môn" ym mhrif swyddfa'r SCE neu gyfeiriad post arall fel y pennwyd yn y drefn bleidleisio.

11.8.5 Mae'n rhaid i'r drefn bleidleisio ar gyfer pleidleisiau sy'n cael eu bwrw trwy e-bost fynnu bod enw'r aelod yn ymddangos ar ben yr e-bost, ac mae'n rhaid i'r e-bost gael ei ddilysu yn y dull a bennwyd yn y drefn bleidleisio.

11.8.6 Mae'n rhaid i bleidleisiau e-bost gael eu dychwelyd i gyfeiriad e-bost a ddefnyddir dim ond at y diben hwnnw a dim ond archwiliwr fydd cael mynediad atynt.

11.8.7 Mae'n rhaid i'r drefn bleidleisio nodi'r dyddiad cau a'r amser ar gyfer derbyn pleidleisiau, ac mae'n rhaid datgan y bydd unrhyw bleidleisiau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau, neu bleidleisiau nad ydynt yn cydymffurfio â'r drefn bleidleisio, yn annilys ac ni fyddant yn cael eu cyfrif.

11.8.8 Mae'n rhaid i'r archwilwyr lunio rhestr o enwau'r aelodau sy'n bwrw pleidleisiau dilys, a rhestr ar wahân o aelodau sy'n bwrw pleidleisiau oedd yn annilys. Mae'n rhaid i'r rhestrau hyn gael eu rhoi i ymddiriedolwr elusen neu unigolyn arall sy'n goruchwylio'r drefn o dderbyn unigolion a phleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol. Ni all aelod sydd wedi bwrw pleidlais ddilys trwy'r post neu e-bost bleidleisio yn y cyfarfod, ac ni ddylid ei gyfrif yn y cworwm ar gyfer unrhyw ran o'r cyfarfod y mae ef neu hi eisoes wedi bwrw pleidlais yn ei chylch. Caniateir i aelod sydd wedi bwrw pleidlais annilys trwy'r post neu e-bost bleidleisio yn y cyfarfod ac mae'n cyfrif tuag at y cworwm.

11.8.9 Yn achos pleidleisiau trwy'r post, mae'n rhaid i'r archwilwyr gadw'r amlenni mewnol (gydag enw a llofnod yr aelod). Yn achos pleidleisiau trwy e-bost, mae'n rhaid i'r archwilwyr dorri i ffwrdd a chadw unrhyw ran o'r e-bost sy'n cynnwys enw'r aelod. Ym mhob achos, mae'n rhaid i archwiliwr gofnodi ar y dystiolaeth hon o enw'r aelod fod y bleidlais wedi cael ei chyfrif, neu os yw'r bleidlais wedi cael ei datgan yn annilys, y rheswm dros ddatganiad o'r fath.

11.8.10 Mae'n rhaid i bleidleisiau a gawsant eu bwrw trwy'r post neu e-bost gael eu cyfrif gan bob un o'r archwilwyr cyn y cyfarfod lle mae'r bleidlais yn digwydd. Mae'n rhaid i'r archwilwyr ddarparu i'r sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod gadarnhad ysgrifenedig o nifer y pleidleisiau dilys a dderbyniwyd trwy'r post ac e-bost a nifer y pleidleisiau a dderbyniwyd a oedd yn annilys.

11.8.11 Ni ddylai'r archwilwyr ddatgelu canlyniad y bleidlais trwy'r post/e-bost tan ar ôl i'r pleidleisiau a gafodd eu bwrw â llaw neu drwy bleidlais yn y cyfarfod, neu drwy bleidlais ar ôl y cyfarfod, gael eu cyfrif. Dim ond ar yr adeg hon y bydd yr archwiliwr yn cyhoeddi canlyniad y pleidleisiau dilys a dderbyniwyd, a bydd y pleidleisiau hyn yn cael eu cynnwys yn y datganiad o ganlyniad y bleidlais.

11.8.12 Yn dilyn y datganiad terfynol o ganlyniad y bleidlais, mae'n rhaid i'r archwilwyr ddarparu i ymddiriedolwyr yr elusen neu berson awdurdodedig arall, fwndeli sy'n cynnwys y dystiolaeth o'r aelodau a gyflwynodd bleidleisiau dilys trwy'r post; tystiolaeth o'r aelodau a gyflwynodd bleidleisiau dilys trwy e-bost; tystiolaeth o bleidleisiau annilys, y pleidleisiau dilys; a'r pleidleisiau annilys.

11.8.13 Mae'n rhaid i unrhyw anghydfod ynghylch cynnal pleidlais trwy'r post neu e-bost gael ei gyfeirio yn y lle cyntaf at banel a sefydlwyd gan ymddiriedolwyr yr elusen, a fydd yn cynnwys dau ymddiriedolwr a dau unigolyn sy'n annibynnol ar y SCE. Os nad oes modd i'r anghydfod gael ei ddatrys yn foddhaol gan y panel, mae'n rhaid ei gyfeirio at y Gymdeithas Diwygio Etholiadol.

### 11.9 Cynrychioli sefydliad ac aelodau corfforaethol

11.9.1 Gall sefydliad neu gorff corfforaethol sy'n aelod o'r SCE, yn unol â'i broses gwneud penderfyniadau arferol, awdurdodi unigolyn i weithredu fel ei gynrychiolydd mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol o'r SCE.

11.9.2 Mae hawl gan y cynrychiolydd i arfer yr un pwerau ar ran y sefydliad neu'r corff corfforaethol ag y gallai'r sefydliad neu'r corff corfforaethol ei arfer fel aelod unigol o'r SCE.

### 11.10 Gohirio cyfarfodydd

Gall y cadeirydd, gyda chydsyniad y cyfarfod lle mae cworwm yn bresennol (a bydd yn gwneud hynny os caiff ei gyfarwyddo gan y cyfarfod) ohirio'r cyfarfod i amser a/neu leoliad arall. Ni ellir trafod unrhyw fusnes mewn cyfarfod a ohiriwyd ac eithrio busnes y gellid fod wedi ei drafod yn briodol yn y cyfarfod gwreiddiol.

## 12. Ymddiriedolwyr Elusen

### 12.1 Swyddogaethau a dyletswyddau ymddiriedolwyr elusen

Bydd ymddiriedolwyr yr elusen yn rheoli busnes yr SCE ac i'r diben hwnnw, gallant arfer holl bwerau'r SCE. Mae gan bob ymddiriedolwr elusen ddyletswydd i:

12.1.1 arfer ei bwerau a chyflawni ei swyddogaethau fel ymddiriedolwr yr SCE yn y ffordd y bydd yn penderfynu, gyda phob ewyllys da, a fyddai'n fwyaf tebygol o hyrwyddo dibenion yr SCE; a

12.1.2 arfer, wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny, y fath ofal a medr ag y bo'n rhesymol yn yr amgylchiadau, gan roi ystyriaeth arbennig i:

a. unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig sydd ganddo neu ganddi, neu yr honnir sydd ganddo/ganddi; ac

b. os yw'n gweithredu fel ymddiriedolwr elusen yr SCE yn rhinwedd busnes neu broffesiwn, unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig y mae'n rhesymol ei ddisgwyl gan unigolyn sy'n gweithredu yn rhinwedd y math hwnnw o fusnes neu broffesiwn.

**12.2 Cymhwyster i fod yn Ymddiriedolwr**

12.2.1 Mae'n rhaid i bob ymddiriedolwr elusen fod yn berson naturiol.

12.2.2 Ni ellir penodi unrhyw un yn ymddiriedolwr elusen yr SCE:

a. os yw dan 16 oed; neu

b. pe byddai yn peidio â dal swydd yn awtomatig o dan ddarpariaethau cymal 15.1.6.

12.2.3 Ni fydd hawl gan unrhyw un i weithredu fel ymddiriedolwr elusen pan gaiff ei benodi neu ei ailbenodi hyd nes ei fod wedi cydnabod yn benodol, ym mha bynnag fordd a benderfynir gan ymddiriedolwyr yr elusen, ei fod yn derbyn y swydd ymddiriedolwr elusen.

**12.3 Nifer yr ymddiriedolwyr elusen**

12.3.1 Dylai fod:-

a. 30 ymddiriedolwr ex-officio; a

b. 2 ymddiriedolwr etholedig

12.3.2 Mae'n rhaid cael o leiaf tri ymddiriedolwr elusen. Os yw'r nifer yn is na'r nifer sylfaenol hwn, gall yr ymddiriedolwr neu'r ymddiriedolwyr elusen sy'n weddill ond gweithredu i alw cyfarfod o'r ymddiriedolwyr elusen, neu benodi ymddiriedolwr elusen newydd.

**12.4 Ymddiriedolwyr elusen cyntaf**

Y canlynol yw'r ymddiriedolwyr elusen cyntaf, gyda'r dynodiad y manylir arno yng nghymal 12.3.1:

- Lewis Davies;
- Richard A Dew;
- Jim Evans;

- Ann Griffith;
- John Griffith;
- Kenneth P Hughes;
- Trefor Lloyd Hughes;
- Vaughan Hughes;
- Victor Hughes;
- William Thomas Hughes;
- Llinos Medi Huws;
- Aled Morris Jones;
- Carwyn Jones;
- Gwilym O Jones;
- Hywel Eifion Jones;
- Robert Llewelyn Jones;
- R. Meirion Jones;
- Raymond Jones;
- Richard Owain Jones;
- Jeffrey M Evans;
- Alun Wyn Mummery;
- Robert G Parry;
- Dylan Rees;
- J Arwel Roberts;

13. **PENODI YMDDIRIEDOLWYR ELUSEN**

13.1 **Ymddiriedolwyr elusen etholedig**

13.1.1 Mae'n rhaid i bob ymddiriedolwr elusen etholedig gael ei benodi am dymor o dair blynedd trwy gynnig sy'n cael ei basio mewn cyfarfod a gafodd ei alw'n briodol o'r ymddiriedolwyr elusen.

13.1.2 Wrth ddewis aelodau i'w penodi fel ymddiriedolwyr elusen etholedig, rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen ystyried y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sydd ei angen ar gyfer gweinyddu'r SCE yn effeithiol.

13.2 **Ymddiriedolwyr elusen ex-officio**

13.2.1 Bydd y swyddi canlynol (“deiliaid y swydd”) am y tro, drwy rinwedd dal y swydd honno (“ex-officio”), yn ymddiriedolwyr elusen yn awtomatig:

a. unrhyw aelod etholedig o Gyngor Sir Ynys Môn; neu

b. unrhyw aelod etholedig o unrhyw gorff neu gyrff sy’n olynu Cyngor Sir Ynys Môn y mae ei ranbarth etholiadol yn cynnwys y cyfan neu unrhyw ran o’r sir.

13.2.2 Os nad yw’n barod i weithredu fel ymddiriedolwr elusen, gall deiliaid y swydd:

a. cyn derbyn ei benodiad fel ymddiriedolwr elusen, roi rhybudd ysgrifenedig i’r ymddiriedolwyr elusen ei fod yn anfodlon gweithredu yn rhinwedd y swydd honno; neu

b. ar ôl derbyn ei benodiad fel ymddiriedolwr elusen, ymddiswyddo o dan y darpariaethau sydd wedi’u cynnwys yng nghymal 15 (Ymddeoliad a diswyddo ymddiriedolwyr elusen).

13.2.3 Yna bydd swydd yr ymddiriedolwr elusen ex-officio yn parhau’n wag nes bod deiliaid y swydd yn peidio â dal y swydd.

14. **Gwybodaeth i ymddiriedolwyr elusen newydd**

Bydd ymddiriedolwyr yr elusen yn darparu’r canlynol i bob ymddiriedolwr elusen newydd, ar neu cyn ei benodiad cyntaf:

14.1 Copi o fersiwn cyfredol y cyfansoddiad hwn; a
14.2 copi o adroddiad blynyddol a datganiad cyfrifon diweddaraf ymddiriedolwyr elusen yr SCE.

15. **Ymddeoliad a diswyddo ymddiriedolwyr yr elusen**

15.1Mae ymddiriedolwyr yr elusen yn peidio â dal swydd os yw ef neu hi :

15.1.1 yn ymddeol trwy hysbysu'r SCE yn ysgrifenedig (ond dim ond os bydd digon o ymddiriedolwyr yr elusen yn parhau yn eu swyddi i ffurfio cworwm ar gyfer cyfarfodydd pan ddaw'r rhybudd o ymddiswyddiad i rym);
15.1.2 yn cael eu diswyddo gan y person neu'r personau a'u penododd;
15.1.3 yn absennol heb ganiatâd ymddiriedolwyr yr elusen o'u holl gyfarfodydd a gynhaliwyd o fewn cyfnod o chwe mis ac ymddiriedolwyr yr elusen yn penderfynu bod ei swydd ef neu hi yn wag;
15.1.4 yn marw;
15.1.5 ym marn ysgrifenedig ymarferydd meddygol cofrestredig sy'n trin yr unigolyn hwnnw, a’r farn honno wedi ei chyflwyno i'r SCE, wedi mynd

yn analluog, yn gorfforol neu'n feddyliol, i weithredu fel cyfarwyddwr, ac y gallai'r person hwnnw barhau felly am fwy na thri mis;

15.1.6 yn cael eu diswyddo gan aelodau'r SCE yn unol ag is-gymal 15.2;

15.1.7 wedi'u hanghymhwyso rhag gweithredu fel ymddiriedolwr elusen yn unol ag adrannau 178-180 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu unrhyw ailddeddfu neu addasiad statudol o'r ddarpariaeth honno).

15.2 Diswyddir ymddiriedolwyr yr elusen os cyflwynir cynnig i wneud hynny mewn cyfarfod cyffredinol o'r aelodau a alwyd i'r pwrpas hwnnw ac a gynulliwyd yn briodol yn unol â chymal 11, a'r cynnig yn cael ei gymeradwyo gan fwyafrif o ddwy ran o dair o'r pleidleisiau a fwriwyd yn y cyfarfod.

15.3 Ni fydd penderfyniad i ddiswyddo ymddiriedolwr yr elusen dan ddarpariaethau'r cymal hwn yn dod i rym oni bai bod yr unigolyn dan sylw wedi cael o leiaf 14 diwrnod clir o rybudd ysgrifenedig bod penderfyniad am gael ei gynnig, yn nodi'r amgylchiadau yr honnir eu bod yn cyfiawnhau'r diswyddo, ac oni bai y rhoddwyd cyfle rhesymol iddo ef neu hi wneud sylwadau llafar a / neu ysgrifenedig i aelodau'r SCE.

## 16. Ailbenodi ymddiriedolwyr yr elusen

Mae unrhyw rai sy'n ymddeol fel ymddiriedolwyr yr elusen yn gymwys i'w hailbenodi. Ni chaniateir ailbenodi ymddiriedolwyr etholedig yr elusen sydd wedi gwasanaethu am ddau dymor yn olynol am drydydd tymor yn olynol, ond gellir eu hailbenodi ar ôl egwyl na fydd yn llai na thair blynedd.

## 17. Ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniadau

Gellir gwneud unrhyw benderfyniad naill ai:

17.1 mewn cyfarfod o ymddiriedolwyr yr elusen; neu

17.2 trwy benderfyniad ar ffurf ysgrifenedig neu electronig y cytunwyd arni gan fwyafrif o holl ymddiriedolwyr yr elusen, a all gynnwys naill ai un ddogfen neu sawl dogfen sy'n cynnwys testun y cynnig ar ffurf debyg y mae mwyafrif o holl ymddiriedolwyr yr elusen wedi llofnodi eu cytundeb iddynt. Bydd penderfyniad o'r fath yn dod i rym ar yr amod: -

17.2.1 bod copi o'r penderfyniad arfaethedig wedi'i anfon ar yr un pryd neu cyn agosed ag sy'n rhesymol ymarferol i'r un pryd, at bob un o ymddiriedolwyr yr elusen; a

17.2.2 bod mwyafrif o holl ymddiriedolwyr yr elusen wedi llofnodi eu cytundeb i'r penderfyniad mewn dogfen neu ddogfennau a ddilyswyd gan eu llofnod, gan ddatganiad ynghylch pwy ydynt a gyflwynwyd gyda'r ddogfen neu'r dogfennau, neu mewn modd arall y penderfynwyd arno'n flaenorol gan ymddiriedolwyr yr elusen, a'u bod

wedi eu danfon i'r SCE i'w phrif swyddfa neu unrhyw le arall a benderfyno'r ymddiriedolwyr cyn pen 28 diwrnod i'r dyddiad cylchredeg.

18. **Dirprwyo gan ymddiriedolwyr yr elusen**

18.1 Gall ymddiriedolwyr yr elusen ddirprwyo unrhyw un o'u pwerau neu eu swyddogaethau i bwyllgor neu bwyllgorau, ac os gwnânt hynny, byddant yn pennu'r telerau a'r amodau y gwneir y ddirprwyaeth arnynt. Gall ymddiriedolwyr yr elusen newid yr amodau a'r telerau hynny ar unrhyw adeg, neu ddirymu'r ddirprwyaeth.

18.2 Mae'r pŵer hwn yn ychwanegol at y pŵer dirprwyo yn y Rheoliadau Cyffredinol ac unrhyw bŵer dirprwyo arall sydd ar gael i ymddiriedolwyr yr elusen, ond mae'n ddarostyngedig i'r gofynion canlynol:

18.2.1 gall pwyllgor gynnwys dau berson neu ragor, ond rhaid i o leiaf un aelod o bob pwyllgor fod yn ymddiriedolwr elusen;

18.2.2 rhaid dwyn gweithredoedd a thrafodaethau unrhyw bwyllgor i sylw holl ymddiriedolwyr yr elusen cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol; a

18.2.3 bydd yr ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd yn adolygu'r trefniadau y maent wedi'u gwneud i ddirprwyo eu pwerau.

**19. Cyfarfodydd ymddiriedolwyr yr elusen**

**19.1 Galw cyfarfodydd**

**19.1.1** Gall unrhyw ymddiriedolwr elusen alw cyfarfod o ymddiriedolwyr yr elusen.

**19.1.2** Yn ddarostyngedig i hynny, bydd ymddiriedolwyr yr elusen yn penderfynu sut y dylid galw eu cyfarfodydd, a pha rybudd sy'n ofynnol.

**19.2 Cadeirio cyfarfodydd**

Gall ymddiriedolwyr yr elusen benodi un o'u plith i gadeirio eu cyfarfodydd a gallant ddirymu penodiad o'r fath ar unrhyw adeg. Os nad oes neb wedi'i benodi yn y fath fodd, neu os yw'r person a benodwyd yn anfodlon llywyddu neu os nad yw'n bresennol cyn pen 10 munud wedi amser dechrau'r cyfarfod, gall ymddiriedolwyr yr elusen sy'n bresennol benodi un o'u plith i gadeirio'r cyfarfod hwnnw.

**19.3 Gweithdrefn mewn cyfarfodydd**

**19.3.1** Ni chymerir unrhyw benderfyniad mewn cyfarfod oni bai bod cworwm yn bresennol ar yr adeg y gwneir y penderfyniad. Y cworwm yw pum ymddiriedolwr yr elusen, neu'r nifer sydd agosaf i draean o gyfanswm nifer yr ymddiriedolwyr, p'un bynnag yw'r uchaf, neu nifer uwch y gall ymddiriedolwyr yr elusen benderfynu arno o bryd i'w gilydd. Ni fydd

ymddiriedolwr yr elusen yn cael ei gyfrif fel rhan o'r cworwm sy'n bresennol pan wneir unrhyw benderfyniad ynghylch mater nad oes ganddo ef neu hi hawl i bleidleisio arno.

**19.3.2** Bydd cwestiynau sy'n codi mewn cyfarfod yn cael eu penderfynu gan fwyafrif o'r rheini sy'n gymwys i bleidleisio

**19.3.3** Os bydd nifer y pleidleisiau yn gyfartal, bydd gan y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

**19.4 Cymryd rhan mewn cyfarfodydd trwy ddulliau electronig**

**19.4.1** Gellir cynnal cyfarfod trwy ddulliau electronig addas y cytunwyd arnynt gan ymddiriedolwyr yr elusen lle gall pob cyfranogwr gyfathrebu â'r holl gyfranogwyr eraill.

**19.4.2** Bydd unrhyw ymddiriedolwr yr elusen sy'n cymryd rhan mewn cyfarfod trwy ddull electronig addas y cytunwyd arno gan ymddiriedolwyr yr elusen a lle gall cyfranogwr neu gyfranogwyr gyfathrebu â'r holl gyfranogwyr eraill, yn cael eu cyfrif fel eu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**19.4.3** Rhaid i gyfarfodydd a gynhelir trwy ddulliau electronig gydymffurfio â rheolau ar gyfer cyfarfodydd, gan gynnwys cadeirio a chymryd cofnodion.

**20. Darpariaethau arbed**

20.1 Yn ddarostyngedig i is-gymal 20.2, bydd holl benderfyniadau ymddiriedolwyr yr elusen, neu bwyllgor o ymddiriedolwyr yr elusen, yn ddilys er gwaethaf cyfranogiad mewn unrhyw bleidlais ymddiriedolwr elusen:

20.1.1 a waharddwyd rhag dal swydd;

20.1.2 a oedd wedi ymddeol yn flaenorol neu y gorfu iddo ef neu hi adael ei swydd yn unol â gofynion y cyfansoddiad;

20.1.3 nad oedd ganddo ef neu hi hawl i bleidleisio ar y mater, p'un ai oherwydd gwrthdaro diddordeb neu fel arall;

os, heb bleidlais yr ymddiriedolwr elusen hwnnw, a'r ymddiriedolwr elusen hwnnw wedi ei gyfrif yn y cworwm, bod y penderfyniad wedi'i wneud gan fwyafrif o ymddiriedolwyr yr elusen mewn cyfarfod lle'r oedd cworwm.

20.2 Nid yw is-gymal 20.1 yn caniatáu i ymddiriedolwr elusen gadw unrhyw fudd y gellir ei roi iddo ef neu hi trwy gynnig gan yr ymddiriedolwyr elusen neu bwyllgor o ymddiriedolwyr elusen pe bai'r cynnig, oni bai am is-gymal 20.1, wedi bod yn ddi-rym, neu os nad yw'r ymddiriedolwr elusen wedi cydymffurfio â chymal 7 (Gwrthdaro diddordeb a gwrthdaro

teyrngarwch).

21. **Gweithredu dogfennau**

21.1 Rhaid i'r SCE weithredu dogfennau naill ai trwy lofnod neu drwy osod ei sêl (os oes ganddo un).

21.2 Gweithredir dogfen yn ddilys trwy lofnod os caiff ei llofnodi gan o leiaf ddau o ymddiriedolwyr yr elusen.

21.3 Os oes gan yr SCE sêl:

21.3.1 rhaid iddo gydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliadau Cyffredinol; a

21.3.2 ni chaniateir ond ei defnyddio trwy awdurdod ymddiriedolwyr yr elusen neu bwyllgor o ymddiriedolwyr yr elusen sydd wedi'i awdurdodi'n briodol gan ymddiriedolwyr yr elusen. Gall ymddiriedolwyr yr elusen benderfynu pwy fydd yn llofnodi unrhyw ddogfen y mae'r sêl wedi'i gosod arni ac oni phenderfynir yn wahanol, bydd dau ymddiriedolwr elusen yn ei llofnodi.

22. **Defnyddio cyfathrebiadau electronig**

22.1 Bydd yr SCE yn cydymffurfio â gofynion y Darpariaethau Cyfathrebu yn y Rheoliadau Cyffredinol ac yn benodol:

22.1.1 y gofyn i ddarparu i unrhyw aelod, cyn pen 21 diwrnod ar gais, gopi caled o unrhyw ddogfen neu wybodaeth a anfonwyd at yr aelod nad oedd ar ffurf copi caled;

22.1.2 unrhyw ofynion i ddarparu gwybodaeth i'r Comisiwn ar ffurf neu ddull penodol.

**22.2 I'r SCE**

Gall unrhyw aelod neu ymddiriedolwr elusen o'r SCE gyfathrebu'n electronig â'r SCE i gyfeiriad a bennir gan yr SCE i'r pwrpas hwnnw, ar yr amod bod y cyfathrebiad wedi'i ddilysu mewn modd sy'n foddhaol i'r SCE.

**22.3 Gan yr SCE**

**22.3.1** Cymerir bod unrhyw aelod neu ymddiriedolwr elusen o'r SCE, trwy ddarparu ei gyfeiriad neu ei chyfeiriad e-bost neu debyg i'r SCE, wedi cytuno i dderbyn cyfathrebiadau gan yr SCE ar ffurf electronig i'r cyfeiriad hwnnw, oni bai bod yr aelod wedi nodi wrth yr SCE ei fod ef neu hi'n amharod i dderbyn cyfathrebiadau o'r fath ar y ffurf honno.

22.3.2 Gall yr ymddiriedolwyr elusen, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol, trwy gyhoeddi ar eu gwefan: -

a. ddarparu'r hysbysiad y cyfeirir ato yng nghymal 11 (3) i'r aelodau (Rhybudd o gyfarfodydd cyffredinol);

b. rhoi rhybudd o'u cyfarfodydd i ymddiriedolwyr yr elusen yn unol â chymal 19 (1) (Galw cyfarfodydd); a

c. cyflwyno unrhyw gynnig i'r aelodau neu ymddiriedolwyr yr elusen am benderfyniad trwy gynnig ysgrifenedig neu bleidlais bost yn unol â phwerau'r SCE o dan gymal 10 (Penderfyniadau'r Aelodau), 10.3 (Penderfyniadau a wneir trwy gynnig ysgrifenedig), neu 11.8 (Pleidleisiau post ).

22.3.3 Rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen: -

a. gymryd camau rhesymol i sicrhau bod aelodau ac ymddiriedolwyr yr elusen yn cael eu hysbysu'n brydlon fod unrhyw rybudd neu gynnig o'r fath wedi ei gyhoeddi;

b. anfon unrhyw rybudd neu gynnig o'r fath ar ffurf copi caled at unrhyw aelod neu ymddiriedolwr elusen nad yw wedi cytuno i dderbyn cyfathrebiadau ar ffurf electronig.

**23. Cadw cofrestrau**

Rhaid i'r SCE gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Rheoliadau Cyffredinol mewn perthynas â chadw, a darparu mynediad i gofrestrau ei aelodau a'i ymddiriedolwyr elusen.

**24. Cofnodion**

Rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen gadw cofnodion o bob:

24.1 penodiad swyddogion a wneir gan yr ymddiriedolwyr elusen;
24.2 trafodaeth yng nghyfarfodydd cyffredinol yr SCE;
24.3 cyfarfod o ymddiriedolwyr yr elusen a phob pwyllgor o ymddiriedolwyr yr elusen gan gynnwys:
24.3.1 enwau ymddiriedolwyr yr elusen sy'n bresennol yn y cyfarfod;
24.3.2 y penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfodydd; a
24.3.3 lle bo hynny'n briodol, y rhesymau dros y penderfyniadau;
24.4 penderfyniadau gan ymddiriedolwyr na chawsant eu gwneud mewn cyfarfodydd.

25. **Cofnodion cyfrifyddu, cyfrifon, adroddiadau blynyddol a ffurflenni, cynnal a chadw'r gofrestr**

25.1 Rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen gydymffurfio â gofynion Deddf Elusennau 2011 o ran cadw cofnodion cyfrifyddu, paratoi a chraffu ar ddatganiadau cyfrifon, a pharatoi adroddiadau a ffurflenni blynyddol. Rhaid anfon y datganiadau cyfrifon,

adroddiadau a ffurflenni at y Comisiwn Elusennau, waeth beth yw incwm yr SCE, cyn pen 10 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

25.2 Rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen gydymffurfio â'u rhwymedigaeth i hysbysu'r Comisiwn cyn pen 28 diwrnod o unrhyw newid ym manylion yr SCE a gofnodir ar y Gofrestr Ganolog o Elusennau.

26. **Rheolau**

26.1 Gall ymddiriedolwyr yr elusen o bryd i'w gilydd wneud unrhyw reolau neu is-ddeddfau rhesymol a phriodol y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol neu'n ymarferol ar gyfer ymddygiad a rheolaeth briodol o'r SCE, ond rhaid i'r rheolau neu'r is-ddeddfau hynny fod yn gyson â phob darpariaeth yn y cyfansoddiad hwn.

26.2 Rhaid i gopïau o unrhyw reolau neu is-ddeddfau o'r fath sydd mewn grym ar hyn o bryd fod ar gael i unrhyw aelod o'r SCE ar gais.

**27. Anghydfodau**

Os bydd anghydfod yn codi rhwng aelodau'r SCE ynghylch dilysrwydd neu briodoldeb unrhyw beth a wneir gan yr aelodau o dan y cyfansoddiad hwn, ac os na ellir datrys yr anghydfod trwy gytundeb, yn gyntaf rhaid i'r partïon yn yr anghydfod geisio, gyda phob ewyllys da, i setlo'r anghydfod trwy gyfryngu cyn troi at ymgyfreitha.

28. **Diwygio'r cyfansoddiad**

Fel y darperir gan adrannau 224-227 o Ddeddf Elusennau 2011:

28.1 ni ellir ond diwygio'r cyfansoddiad hwn drwy:

- 28.1.1 trwy benderfyniad y cytunwyd arno yn ysgrifenedig gan holl aelodau'r SCE; neu
- 28.1.2 trwy benderfyniad a gymeradwywyd gan fwyafrif o 75% o'r rheini a bleidleisiodd mewn cyfarfod cyffredinol o aelodau'r SCE.

28.2 Bydd angen cytundeb ymlaen llaw gan y Comisiwn Elusennau ar gyfer unrhyw newid i gymal 3 (Amcanion) cymal 29 (Dirwyn i ben neu ddiddymu gwirfoddol), y cymal hwn, neu newid i unrhyw ddarpariaeth lle byddai'r newid hwnnw'n awdurdodi unrhyw fudd i ymddiriedolwyr yr elusen neu aelodau o'r SCE neu unigolion cysylltiedig.

28.3 Ni fydd unrhyw newid sy'n anghyson â darpariaethau Deddf Elusennau 2011 neu'r Rheoliadau Cyffredinol yn ddilys.

28.4 Rhaid anfon copi o bob penderfyniad sy'n diwygio'r cyfansoddiad, ynghyd â chopi o gyfansoddiad yr SCE fel y diwygiwyd ef, at y Comisiwn erbyn diwedd cyfnod o 15 niwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad cymeradwyo'r cynnig, ac nid yw'r newid yn dod i rym nes iddo gael ei gofnodi yn y Gofrestr Elusennau.

29 **Dirwyn i ben yn wirfoddol neu ddiddymu**

29.1 Fel y darperir gan y Rheoliadau Diddymu, gellir diddymu'r SCE trwy benderfyniad gan ei aelodau. Ni all yr aelodau ond gwneud unrhyw benderfyniad i ddirymu neu ddirwyn yr SCE i ben :

29.1.1 mewn cyfarfod cyffredinol o aelodau'r SCE a alwyd yn unol â chymal 11 (Cyfarfodydd aelodau), y rhoddwyd dim llai 14 diwrnod o rybudd ohono i'r rheini sy'n gymwys i fod yn bresennol a phleidleisio:

a. trwy benderfyniad a gymeradwywyd gan fwyafrif 75% o'r rheini a bleidleisiodd, neu

b. trwy benderfyniad a gymeradwywyd a heb bleidlais a heb unrhyw fynegiad o anghytundeb mewn ymateb i'r cwestiwn a ofynnwyd i'r cyfarfod cyffredinol; neu

29.1.2 trwy benderfyniad y cytunwyd arno yn ysgrifenedig gan holl aelodau'r SCE.

29.2 Yn amodol ar dalu holl ddyledion yr SCE:

29.2.1 Gall unrhyw gynnig ar gyfer dirwyn yr SCE i ben, neu ar gyfer diddymu'r SCE heb ddirwyn i ben, gynnwys darpariaeth sy'n cyfarwyddo sut defnyddir unrhyw asedau a fo gan yr SCE yn weddill.

29.2.2 Os nad yw'r penderfyniad yn cynnwys darpariaeth o'r fath, rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen benderfynu sut defnyddir unrhyw asedau a fo gan yr SCE yn weddill.

29.2.3 Yn y naill achos neu'r llall, rhaid defnyddio'r asedau sy'n weddill at ddibenion elusennol sydd yr un fath â rhai'r SCE neu'n debyg iddynt.

29.3 Rhaid i'r SCE lynu wrth ofynion y Rheoliadau Diddymu wrth wneud cais i'r Comisiwn i dynnu'r SCE oddi ar y Gofrestr Elusennau, ac yn benodol:

29.3.1 rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen anfon gyda'u cais i'r Comisiwn:

a. gopi o'r penderfyniad a gymeradwywyd gan aelodau'r SCE;

b. datganiad gan yr ymddiriedolwyr bod unrhyw ddyledion a rhwymedigaethau eraill a fo gan yr SCE fod wedi'u setlo neu y darparwyd ar eu cyfer yn llawn fel arall; a

c. datganiad gan ymddiriedolwyr yr elusen yn nodi'r ffordd y mae unrhyw eiddo sydd gan yr SCE wedi'u defnyddio, neu sut byddant yn cael eu defnyddio cyn ddiddymu'r SCE yn unol â'r cyfansoddiad hwn;

29.3.2 rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen sicrhau bod copi o'r cais yn cael ei anfon o fewn saith niwrnod at holl aelodau a holl weithwyr yr SCE, ac at unrhyw ymddiriedolwr elusen o'r SCE nad oeddent yn gwybod am y cais.

29.4 Os yw'r SCE i gael ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu mewn unrhyw amgylchiadau eraill, rhaid dilyn darpariaethau'r Rheoliadau Diddymu.

## 30 DEHONGLI

Yn y cyfansoddiad hwn:

Ystyr “person cysylltiedig” yw:

a. plentyn, rhiant, ŵyr, wyres, nain, taid, brawd neu chwaer ymddiriedolwr yr elusen;

b. priod neu bartner sifil ymddiriedolwr yr elusen neu unrhyw berson sy'n dod o fewn is-gymal (a) uchod;

c. person sy'n cynnal busnes mewn partneriaeth ag ymddiriedolwr yr elusen neu gydag unrhyw berson sy'n disgyn o fewn is-gymal (a) neu (b) uchod;

(ch) sefydliad sy'n cael ei reoli -

i. gan ymddiriedolwr yr elusen neu unrhyw berson cysylltiedig sy'n disgyn o fewn is-gymal (a), (b), neu (c) uchod;

ii. gan ddau berson neu fwy sy'n disgyn o fewn is-gymal (ch) (i), o'u cymryd gyda'i gilydd

d. corff corfforaethol lle -

i. mae gan ymddiriedolwr yr elusen neu unrhyw berson cysylltiedig sy'n disgyn o fewn is-gymalau ddiddordeb sylweddol; neu

ii. mae dau neu fwy o bobl yn disgyn o fewn is-gymal (d) (i) ac sydd, o'u cymryd gyda'i gilydd, â diddordeb sylweddol.

Mae adran 118 o Ddeddf Elusennau 2011 yn berthnasol i ddibenion dehongli'r termau a ddefnyddir yn y cyfansoddiad hwn.

Ystyr “Sir” yw Sir Ynys Môn;

Ystyr “Rheoliadau Cyffredinol” yw Rheoliadau Sefydliadau Corfforedig Elusennol (Cyffredinol) 2012.

Ystyr “Rheoliadau Diddymu” yw Rheoliadau Sefydliadau Corfforedig Elusennol (Ansolfedd a Diddymu) 2012.

Ystyr y “Darpariaethau Cyfathrebu” yw'r Darpariaethau Cyfathrebu yn Rhan 10, Pennod 4 o'r Rheoliadau Cyffredinol.

Ystyr “ymddiriedolwr yr elusen” yw ymddiriedolwr elusen yr SCE.

Mae “pleidlais” yn golygu pleidlais agored sydd wedi'i chyfrif neu bleidlais gyfrinachol, fel arfer (ond nid o angenrheidrwydd) ar ffurf ysgrifenedig.